At: bob Swyddog Cyfrifol, drwy e-bost

5 Awst 2019

Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Dyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu meini prawf ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu sy'n dymuno cynnig cymwysterau TGAU a/neu TAG, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

Diolch i bawb wnaeth ymateb. Mae ein hadroddiad a 'Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Dyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG' bellach wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan.

O 5 Awst 2019, mae'n ofynnol i unrhyw gorff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU a TAG yng Nghymru fod wedi cael cydnabyddiaeth ychwanegol gennym ni, i wneud hynny.

Rhaid i gyrff dyfarnu sy'n gwneud cais i ni am gydnabyddiaeth ychwanegol allu dangos eu bod yn medru bodloni ein gofynion, fel y nodir yn ein meini prawf newydd.

Mae cyfres o reolau sy'n disgrifio sut y dylid gwneud cais am gydnabyddiaeth ychwanegol, hefyd i'w gweld ar ein gwefan.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau i'n dogfennau rheoleiddio cysylltiedig eraill i adlewyrchu'r gofyniad cydnabyddiaeth ychwanegol newydd hwn.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch â cydnabodachymeradwyo@cymwysteraucymru.org

Yn gywir,

Jo Richards,

Cyfarwyddwr Gweithredol dros Reoleiddio